



COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG WEA YMCA CC CYMRU
A GYNHALIWIYD DDYDD SADWRN 5 TACHWEDD 2016 YNG NGHANOLFAN
EDWARD LLWYD, PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM, LL11 2AW

Yn bresennol:

Swyddogion: John Graystone (Cadeirydd), Mark Isherwood (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni) (3).

Aelodau unigol: Carey Davidson, Cath Dawkes, David Elis-Williams, Christopher Franks, Christina Gallagher, Jeremy Gass, Jonathan Goddard, Dave Griffiths, Lynne Hayes, Steve Hayes, Rob Humphreys (Is-gadeirydd), Gerry Jenson (Is-gadeirydd), June Jeremy, Nathan Jones, Sarah K. Jones, Michelle Kerswell, Graham Price, Sharon Reader, Jenny Render, Julie Roberts, Susan Roberts, Kathryn Robson, Dafydd Rhys, Toni Schiavone, John Spencer, Nick Taylor, Alan Tinsley (27).

Aelodau unigol a Chynrychiolwyr Cangen: Cathy Clark (Y Coed-duon ac Oakdale), Derek Edwards (Uned 10 Gwaith Saer, Port Talbot), Jenni Jones-Annetts (Caerffili), David MacManus (Caerffili), Sonia Reynolds (Cwm Aman Uchaf), Ceinwen Statter (Merthyr Tudful), Marilyn Thomas (Caerffili) (7).

Cynrychiolwyr Cangen, Fforwm Dysgwyr neu Sefydliadau Cysylltiedig a Phartneriaid: Nigel Davies (AVOW – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wreccsam), Alison Hill (Partneriaeth Caia Park), Evie Wyn Jones (Busnes Eryri Cyf.) (3).

Mynychwyr: Marc Jones (Y Saith Seren), Sion Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd) (2).

Ymddiheuriadau:

Vivien Allen, Leanne Andreadis, David Ashman, Mark Baines, Sue Carlick, Colette Chilcott, Simon Conlin, Gareth Cork, Deborah Crecraft, Gerwyn Davies (Cangen Port Talbot), Maggi Dawson, Mandy Doyle, Steve Drowley, Diane Durrant (CIL De Gwynedd), Phil Elias, Tudur Evans, James Fleming, Janette Francis, Christine Franks, Tracy Garnett, Adele Gatt, Margaret Gimblett (Cangen Llanelli), David Girdler, William Dwyfor Griffiths (Cangen Llanelli), Natasha Harris, Maria Hartill, Adrian Heathfield, Cath Hicks, Llinos Hicks, Mena Ifans, Jayne Ireland, Hannah Isherwood, Catrin James (Urdd Gobaith Cymru), Sonia Jones, Victoria Knappett, Matthew Lloyd, Roslynne McAlister, Betty Mason, Clive Morgan, Graham Morris (Cangen Port Talbot), Richard Gareth Morris, Annie O'Brien, Lynne Osborne, Denise Owen (Dysgu Bro Ceredigion), Tim Owen, Jon Parry, Gwyneth Price, Martyn Reed, Heward Rees (Cangen Llanelli), Donna Ridler, Liz Saville Roberts AS, Patrick Robson, Carole Ann Smith (Cangen Llanelli), David Smith, Jan Tiley, Peter Townend, Jess Turner, Mark Turner, Lisa Voyle (Cangen Llanelli), Becky Watson Stubbs, Margaret Whitcombe, Buddug Wiliam, Heather Willbourn, Beverly Williams, Ceri Williams, Huw Williams (Cangen Merthyr Tudful), Val Williams (Sylfaen Cymunedol Cyf., Caernarfon), Christine Worth (Cangen Llanelli) (68).

1. Croeso

Croesawodd John Graystone bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, yr ail o fewn ychydig fisoedd, a gwnaeth rhai cyhoeddiadau ynglŷn â chyfieithu ar y pryd a'r papurau pleidleisio a ddsbarthwyd adeg cofrestru.

2. Cyflwyniad gan Marc Jones – Y Saith Seren

Fe wnaeth Marc Jones, un o'i sylfaenwyr, ddisgrifio sut cafodd Y Saith Seren yn Wrecsam ei sefydlu fel menter gydweithredol wedi'i rhedeg gan y gymuned a chanolfan y Gymraeg, Wrecsam. Siaradodd am lwyddiannau'r fenter yn ystod pum mlynedd ei bodolaeth a'r heriau parhaus yr oedd yn eu hwynebu, nid lleiaf y ffaith nad oedd wedi derbyn unrhyw arian cyhoeddus tuag at gynnal y fenter. Wrth ateb cwestiynau, cadarnhaodd fod sawl cyfle i'r Saith Seren weithio'n agosach â WEA YMCA CC Cymru, mewn partneriaeth ffurfiol neu fel arall. Roedd y Saith Seren yn ganolfan addysg yn rhannol, gyda'i phwyslais ar faterion diwylliannol a dinasyddiaeth yn cyd-fynd â phwyslais WEA YMCA CC Cymru. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad diddorol gan Mark Isherwood, a fu'n profi awyrgylch Y Saith Seren y noson cynt.

3. Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig 22 Mehefin 2016

Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a gynhaliwyd yn Llandrindod ym Mehefin yn gofnod cywir (cynigiwyd gan Chris Franks; eiliwyd gan Cathy Clark). Roedd pob mater yn deillio ohonynt ar agenda'r diwrnod.

4. Trefniadau a sylwadau rhagarweiniol

Dywedodd John Graystone fod y cyfarfod hwn yn Wrecsam wedi'i gynnull yn unol â chyfansoddiad WEA YMCA CC Cymru, a bod cworwm yn bresennol. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau (a nodir uchod) ac roedd llawer o'r absenolion wedi defnyddio'u hawl i fwrw'u pleidlais trwy ddirprwy ymlaen llaw. Byddai rhai o'r pleidleisiau hynny'n cael eu bwrw gan aelodau unigol enwebedig a oedd yn bresennol, eraill drwyddo ef fel Cadeirydd: byddai'r rhain yn cael eu hystyried ar yr adeg briodol. Roedd angen ethol rhifwyr o blith yr aelodau a oedd yn bresennol er mwyn cyfrif y pleidleisiau ar y Llawr: etholwyd Tina Gallagher a Julie Roberts i'r swyddogaethau hynny. Cadarnhaodd John Graystone fod angen cymeradwyaeth gan 75% o'r bleidlais er mwyn i'r Penderfyniadau Arbennig lwyddo, oherwydd eu natur gyfansoddiadol, gyfreithiol.

Dywedodd fod digwyddiadau a fu ers y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig blaenorol – y Refferendwm ar yr UE, y ras am Arlywyddiaeth America – yn dangos bod rhaniadau yr oedd angen eu goresgyn ym mhobman. Dyma oedd yr achos ar raddfa lai yn ein sefydliad ni hefyd: gwrandawyd ar yr anghytundebau a fynegwyd mor huawdl ym mis Mehefin, roedd gwersi wedi'u dysgu ac roedd yn gobeithio y byddai'r cynigion diwygiedig gerbron y cyfarfod yn cael eu derbyn, gan eu bod yn deillio o drafodaeth gadarnhaol a chyfaddawd, ar ran llywodraethwyr ac uwch staff.

Hefyd, cyfeiriodd at adroddiad Llywodraeth Cymru ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, a gyhoeddwyd bythefnos ynghynt, gyda'i bum argymhelliad allweddol. Roedd hi'n hanfodol bod WEA YMCA CC Cymru yn dangos y gallai ymgymryd â rôl ranbarthol strwythuredig neu rôl genedlaethol gydlynedig mewn perthynas â Dysgu Oedolion yn y Gymuned, gan fod Llywodraeth Cymru ar fin cychwyn ar ddiwygio sylweddol yn y maes hwnnw. Felly, byddai uwch-weision sifil a Gweinidogion yn awyddus i wybod beth oedd canlyniad y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn hynny o beth.

5. Penderfyniad Arbennig 1

'Bod y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig hwn yn penderfynu ymestyn swyddi'r Cyngor presennol dri mis calendr hyd at 31 Mawrth 2017 ac yn cyfarwyddo Ysgrifennydd y Cwmni i ddiwygio Erthygl 10 yn unol â hynny a ffeilio'r Erthyglau diwygiedig.'

Wrth gynnig hwn, esboniodd Chris Franks fod angen i'r Cyngor presennol barhau tan ddiwedd Mawrth 2017 fel y gallai gwblhau'r gwaith a oedd yn deillio o'r eitemau eraill ar yr agenda, y byddent yn eu trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig. Ychwanegodd Sonia Reynolds mai dyma'r cyfnod lleiaf y byddai ei angen i roi'r strwythurau diwygiedig yn eu lle, a chynnal ein cysylltiad â Llywodraeth Cymru ac eraill yn ystod y cyfnod cyn i'r Cyngor newydd ymgymryd â'u swyddi.

Aethpwyd ati i bleidleisio ar Benderfyniad Arbennig 1; roedd y canlyniad – gan gynnwys y pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy – fel a ganlyn:

**100 o blaid
1 yn erbyn
3 wedi atal eu pleidlais**

Felly, derbyniwyd y Penderfyniad gyda mwyafrif clir iawn – y tu hwnt i'r bleidlais ofynnol o 75% o'i blaid.

6. Penderfyniad Arbennig "A"

'Bod enw'r Cwmni'n cael ei newid i Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales, gyda phenderfyniad o'r fath yn dod i rym ar unwaith yn sgil cael pob cydsyniad angenrheidiol (os o gwbl) ar gyfer mabwysiadu erthyglau cwmni newydd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.'

Cynigiwyd hwn gan Kathryn Robson, Dirprwy Brif Weithredwr. Cyfeiriodd at y ddogfen a ddosbarthwyd yn gynt yn ystod y cyfarfod, yn rhoi manylion yr ymgynghori helaeth a fu dros sawl mis ar yr enw ac, yn fwy diweddar, ar logo a brandio gweledol y sefydliad. Yn benodol, tynnodd sylw at Atodiad 1, yn amlinellu'r camau ymchwil ynghylch enw'r sefydliad a gynhaliwyd yn gynt yn ystod y flwyddyn. Bron i gymeradwyaeth gael ei rhoi ar gyfer hyn yn y cyfarfod yn Llandrindod ym Mehefin 2016. Gan fod aelodau wedi cael sicrwydd erbyn hyn y byddai'r sefydliadau blaenorol yn cael eu cynnwys fel rhan o'n hunaniaeth yn y dyfodol, roedd hi'n ffyddiog y byddai'r penderfyniad pwysig hwn yn llwyddo. Fe wnaeth Cathy Clark,

fel eilydd y penderfyniad, sôn ei bod wedi cymryd rhan mewn sawl math o ymgynghoriad ers lawer mis a'i bod hi'n hen bryd symud ymlaen o ran y mater hwn.

Cyflwynodd Rob Humphreys nifer o resymau dros gymeradwyo'r enw: cydlyniad mewnol, cydnabyddiaeth allanol gwell gan ddysgwyr a Llywodraeth Cymru, a chreu delwedd fwy pwrpasol. Eglurodd y pwyntiau trwy ddangos poteli o chwisi â labeli gwahanol arnynt, yn cynrychioli hen enwau ac enw newydd arfaethedig y sefydliad, ond gyda'r un cynnwys ym mhob un ohonynt. Er bod parchu'r gorffennol yn bwysig, byddai uno o dan un enw yn weithred symbolaidd bwysig at y dyfodol.

Nid oedd Carey Davidson o blaid y newid i'r enw. Roedd R H Tawney wedi bod yn gyfrifol am y dosbarth cyntaf a gynhaliwyd yn enw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn Wrecsam, a sefydlwyd at ddiben penodol a mawrfrydig, ac roedd hi'n poeni nad oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr enw newydd o gwbl. I ymateb i hynny, dywedodd Michelle Kerswell ei bod hi, fel Rheolwr Dysgu a gafodd ei recriwtio'n weddol ddiweddar, o'r farn y gellid rhoi rhywfaint o sicrwydd bod yr ethos a'r ysbryd gwreiddiol yn parhau i lifo trwy wythiennau'r sefydliad, gan ei fod yn parchu ei hanes o hyd ac yn ymwybodol y dylai ei egwyddorion barhau. Ychwanegodd Graham Price y byddai'n parhau'n rhan o'r rhwydwaith rhyngwladol ehangach o gyrff Cymdeithas Addysg y Gweithwyr: roedd angen enw newydd ar yr endid cyfreithiol at ddibenion cyflwyno ac eraill, a dylai aelodau ymdrechu i sicrhau bod popeth da o'r gorffennol yn cael ei ddwyn ymlaen.

Roedd y bleidlais ar Benderfyniad Arbennig "A" – gan gynnwys pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy – fel a ganlyn:

**102 o blaid
2 yn erbyn
0 wedi atal eu pleidlais**

Felly, derbyniwyd y Penderfyniad gyda mwyafrif clir iawn, y tu hwnt i'r bleidlais ofynnol o 75% o'i blaid.

7. Penderfyniad Arbennig "B"

'Bod y rheoliadau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen a gyflwynwyd gerbron y cyfarfod ac, at ddiben eu hadnabod, wedi'u llofnodi gan gadeirydd y cyfarfod, yn cael eu mabwysiadu'n erthyglau cwmni'r Cwmni yn lle holl erthyglau cwmni presennol y Cwmni ar unwaith, yn amodol yn unig ar dderbyn pob cydsyniad angenrheidiol (os o gwbl) ar gyfer yr erthyglau cwmni newydd oddi wrth Gomisiwn Elusennol Cymru a Lloegr.'

Cynigiwyd hwn gan Gerry Jenson, a esboniodd fod y ddogfen yn fodd o symud ymlaen gan ei bod yn cyfuno dau gynnig – na chafodd na'r naill na'r llall y gefnogaeth angenrheidiol yn y cyfarfod yn Llandrindod yn yr haf. Roedd gweithgor gyda chynrychiolwyr y ddau gynnig hynny wedi llunio'r erthyglau diwygiedig, sef rhaniad o 60/40 o safbwynt mwyafrif etholedig i'r Cyngor, adolygiad o drefniadau ymhen tair blynedd, a Chadeirydd wedi'i ethol gan aelodau'r Cyngor. Wrth eilio'r cynnig hwn, roedd Jeremy Gass yn derbyn y cyfaddawd hwn, gan gydnabod bod agweddau dadleuol ar y cynnig blaenorol wedi'u hepgor. Felly, ni fyddai Cynulliad yn awr, ni fyddai'r Prif Weithredwr yn llywodraethwr mwyach a byddai pob llywodraethwr newydd yn dod yn aelodau unigol o'r sefydliad, os nad oeddent eisoes.

Cytunwyd ar gyfaddawd pellach, sef gostwng maint y corff i 20. Er ei fod yn siomedig o hyd y byddai llywodraethwyr o sefydliadau cysylltiedig a phartneriaid yn cael eu penodi yn hytrach na'u hethol, ac na fyddai'r 3 dysgwr-lywodraethwr yn dod o ganghennau neu fforymau dysgwyr yn unig, roedd yn fodlon bod llawer o bryderon wedi'u datrys ac yn hapus i eilio'r cynnig.

Cafwyd pleidlais ar Benderfyniad Arbennig "B". Yn cynnwys pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy, roedd y canlyniad fel a ganlyn:

**98 o blaid
1 yn erbyn
5 wedi atal eu pleidlais**

Felly, derbyniwyd y Penderfyniad, gan fod y bleidlais ofynnol o 75% o'i blaid wedi'i gyflawni'n glir.

8. Mabwysiadu Gorchmynion Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau diwygiedig Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales

Pwysleisiodd Toni Schiavone y ffaith bod cynnal y cyfarfod hwn yn Wrecsam yn dystiolaeth o gylch gwaith Cymru gyfan y sefydliad; cafodd hynny ei bwysleisio ymhellach yn yr Adendwm pwysig i'r ddogfen, a oedd yn sicrhau tegwch o ran cwrpas daearyddol, rhyw, iaith a chategorïau eraill hefyd yng nghyfansoddiad y Cyngor newydd. Er ei fod yn derbyn y gallai fod wedi achosi oedi, yn ei farn ef, roedd y cyfarfod yn Llandrindod ym Mehefin 2016 yn un o'r gorau o blith unrhyw sefydliad yr oedd wedi'i fynychu ers sawl blwyddyn. Roedd natur fywiog y cyfarfod wedi dangos nad oedd ef, a'i gyd-lywodraethwyr, wedi talu digon o sylw i ddymuniadau aelodau a'u bod, yn gwbl gywir, wedi cael eu dwyn i gyfrif. Eiliodd David Elis-Williams y cynnig yn ffurfiol.

Cafwyd pleidlais ar y mater. Yn cynnwys pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy, roedd y canlyniad fel a ganlyn:

**99 o blaid
0 yn erbyn
5 wedi atal eu pleidlais**

Felly, derbyniwyd y Penderfyniad, gan fod y bleidlais ofynnol o 50% +1 o'i blaid wedi'i gyflawni'n glir.

9. Darluniadau gweledol o'r enw newydd a chyrrff blaenorol ar ddeunyddiau

Esboniodd Jonathan Goddard ymhellach y prosiect ymchwil a'r ymarferion ymgynghori a gyflawnwyd ynghylch y materion hyn ac a oedd wedi ymwneud ag aelodau a rhanddeiliaid eraill y sefydliad. Cyflwynodd ddeunyddiau gweledol yn dangos sut byddai'r sefydliad yn cael ei bortreadu yn y dyfodol, gan gyfeirio at y papur a ddisbarthwyd yn flaenorol a oedd yn cynnwys yr opsiynau a fu gerbron grŵp ffocws, Fforymau Rhanbarthol ac eraill yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd cyfeiriadau at y sefydliadau blaenorol yn yr enghreifftiau, yn unol â gofynion aelodau. Credai y byddai'r canlyniad yn y pen draw o ran enw a logo yn gweithio'n

dda wrth ddenu dysgwyr. Byddai angen penderfynu'n derfynol (trwy ymgynghori pellach) ar faterion fel ffont a lliw: y bwriad fyddai cael cyfres lawn o ganllawiau brand ar waith erbyn diwedd Ionawr 2017.

Mewn ateb i gwestiynau o'r Llawr, esboniodd y bu mwy o logos na'r tri therfynol yn ystod cam cynt o'r broses ymgynghorol, a bod y dyluniad wedi'i wirio fel nad oedd yn rhy debyg i logos cyrff neu gwmnïau masnachol eraill. Pwysleisiwyd iddo pa mor bwysig oedd i'r dyluniad fod yn hygyrch yn weledol i bobl anabl.

10. Y camau nesaf a sylwadau i gloi

Crynhodd Stephen Thomas y camau nesaf i'w cymryd. Byddai awdurdodiad y Comisiwn Elusennol a Thŷ'r Cwmnïau yn cael ei geisio ar gyfer y newidiadau cyfansoddiadol ar yr un pryd, ond y dylai aelodau a'r sefydliad cyfan ddefnyddio'r enw newydd yn gyffredin, ar unwaith. Byddai cyfansoddiad y Cyngor newydd yn digwydd fesul dau gam, gyda'r 12 llywodraethwr etholedig yn eu swyddi yn gynnar yn ystod 2017 a'r 8 llywodraethwyr penodedig yn dilyn, gan lenwi unrhyw fylchau o ran sgiliau ac amrywiaeth a oedd yn bodoli, yn ddelfrydol. Cafwyd trafodaeth ynghylch ai'r 12 yn unig ddylai fod yn gyfrifol am yr 8 penodiad, wedi i'r 12 gael eu hethol i'w swyddi. Er bod y farn ynghylch hyn yn amrywio, roedd y rhan fwyaf a siaradodd o'r farn bod gan y Cyngor presennol ddyletswydd i sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo'n gywir ac, felly, y dylai oruchwyllo'r broses benodi honno, drwy ei Bwyllgor Chwilio presennol, tra'n sicrhau bod y llywodraethwyr etholedig nesaf yn gallu dweud eu dweud ar y mater.

Diolchodd John Graystone i'r rhai a oedd wedi cyfrannu at y cyfarfod a chloi gan ddweud ei fod yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch dyfodol y sefydliad, o ystyried y ffordd yr oedd y cyfarfod wedi mynd rhagddo.